



Gallwch lawrlwytho'r lluniau yn rhad ac am ddim o www.freebibleimages.org ar ffurf PowerPoint, Keynote, JPEG neu PDF. Mae'r Cynllun Stori yma yn dangos be sy'n digwydd ym mhob rhan o'r hanes. Darllenwch yr hanes yn y Beibl ac wedyn penderfynwch sut dych chi am gyflwyno'r stori. Mae yna le i chi sgwennu nodiadau. Gallwch ddileu unrhyw luniau/sleidiau nad ydych chi am eu defnyddio, ac ychwanegu lluniau eich hun fel bydd angen.

Disgrifiad

Llun

Nodiadau


1 Samuel 16: 1-23



- 1 Roedd yr Arglwydd yn sori ei fod wedi gwneud Saul yn frenin. Roedd Saul wedi troi ei gefn ar Dduw, a doedd o ddim yn ufudd i'w orchmynion. Dwedodd Saul wrth Samuel ei fod wedi gwneud beth ddywedodd yr Arglwydd, ond celwydd oedd hyn. Am fod Saul wedi gwrthod gwrandao ar Dduw roedd Duw wedi ei wrthod fel frenin.



- 2 Roedd Samuel yn drist iawn fod Duw wedi gwrthod Saul fel frenin. Ond roedd Duw wedi dewis un o feibion Jesse i fod yn frenin yn lle Saul.




- 3 Dwedodd yr Arglwydd wrth Samuel i fynd i Bethlehem, at Jesse, am ei fod wedi dewis un o feibion Jesse i fod yn frenin. Atebodd Samuel, "Sut alla i wneud hynny? Os bydd Saul yn clywed am y peth bydd e'n fy lladd i!"



-
- 4 “Dos â heffer gyda ti,” meddai'r ARGLWYDD, “a dweud, 'Dw i'n mynd i aberthu i'r ARGLWYDD.' Gwahodd Jesse i'r aberth, a gwna i ddangos i ti pa un o'i feibion i'w eninio gyda'r olew.” Gwnaeth Samuel fel roedd Duw wedi dweud.



-
- 5 Pan welodd Samuel Eliab, fab Jesse, meddylodd yn siŵr mai ef oedd yr un oedd yr Arglwydd wedi ei ddewis i fod yn frenin. Ond na, dyma'r ARGLWYDD yn dweud wrtho, “Paid cymryd sylw o pa mor olygus ydy e neu pa mor dal ydy e. Dydy Duw ddim yn edrych ar bethau yr un fath ac mae pobl. Mae pobl yn edrych ar y tu allan, ond mae'r ARGLWYDD yn edrych ar sut berson ydy e go iawn.”




-
- 6 Yna dyma Jesse yn galw Abinadab, i Samuel gael ei weld e. Ond dyma Samuel yn dweud, “Dim hwn mae'r ARGLWYDD wedi ei ddewis chwaith.”




-
- 7 Felly dyma Jesse yn dod â Shamma ato. Ond dyma Samuel yn dweud, “Dim hwn mae'r ARGLWYDD wedi ei ddewis chwaith.”



-
- 8 Dyma Jesse'n dod â saith o'i feibion at Samuel yn eu tro. Ond dyma Samuel yn dweud wrtho, "Dydy'r ARGLWYDD ddim wedi dewis run o'r rhain."



-
- 9 Dyma Samuel yn holi Jesse, "Ai dyma dy fechgyn di i gyd?"



-
- 10 "Na," meddai Jesse, "Mae'r lleiaf ar ôl. Mae e'n gofalu am y defaid." "Anfon rhywun i'w nôl e," meddai Samuel. "Wnawn ni ddim byd arall nes bydd e wedi cyrraedd."



-
- 11 Felly dyma Jesse'n anfon amdano. Roedd yn fachgen iach yr olwg gyda llygaid hardd — bachgen golygus iawn. A dyma'r ARGLWYDD yn dweud, "Tyrd! Hwn ydy e! Eneinia fe â'r olew."



-
- 12 Felly dyma Samuel yn tywallt yr olew ar ben Dafydd o flaen ei frodyr i gyd. Daeth Ysbryd yr ARGLWYDD yn rymus ar Dafydd o'r diwrnod hwnnw ymlaen.



-
- 13 Dyma'r ARGLWYDD yn anfon ysbryd drwg i boeni Saul. Dwedodd un o'i swyddogion wrtho, "Dw i'n gwybod am fab i Jesse o Fethlehem sy'n dda ar y delyn. Mae e'n filwr dewr, yn siaradwr da, mae'n fachgen golygus ac mae'r ARGLWYDD gydag e." Dyma Saul yn anfon neges at Jesse, "Anfon dy fab Dafydd ata i." Felly daeth Dafydd i weithio i Saul.



-
- 14 Roedd Saul yn ei hoffi'n fawr, a rhoddodd y cyfrifoldeb o gario'i arfau iddo. Pan fyddai Duw yn anfon ysbryd drwg ar Saul, byddai Dafydd yn nôl ei delyn a'i chanu. Byddai hynny'n tawelu Saul a gwneud iddo deimlo'n well. Yna byddai'r ysbryd drwg yn gadael llonydd iddo.



-
- 15 Cyfieithwyd gan www.beibl.net



These illustrations are the copyright of Sweet Publishing and licensed by FreeBibleImages for free download under the terms of the Creative Commons Attribution-ShareAlike 3.0 unported license.

www.freebibleimages.org
